Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Abernant
Abernant
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA33 5RR

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Abernant

Lleolir Ysgol Gynradd Abernant ger tref Caerfyrddin, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae Ysgol Abernant yn rhan o dair ysgol mewn ffederasiwn anffurfiol. Mae ysgolion Cynwyl Elfed a Llanpumsaint eisoes wedi eu ffedereiddio yn ffurfiol ac mae Ysgol Abernant yn y broses o ymuno'n ffurfiol â'r ffederasiwn.

Mae 23 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Tua 52% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac nid oes neb o gartrefi lleiafrifol ethnig. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 39% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn mis Ionawr 2015 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas dros gyfnod yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd.  Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn gweithio'n briodol i gefnogi dysgu'r disgyblion.  Fodd bynnag,  nid yw'r addysgu bob amser yn ddigon heriol.  Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i'r disgyblion.  Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac, mewn amser byr, mae wedi cyflwyno strategaethau addas i wella'r ddarpariaeth.  Er hynny, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith y gweithredu ar safonau disgyblion.  Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol, ond nid ydynt eto yn rhoi digon o her i'r ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith ar draws yr ysgol

A2 Codi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y ddau gyfnod allweddol

A3 Gwella safonau darllen Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

A4 Sicrhau bod yr addysgu ar draws yr ysgol yn heriol ac yn ymateb i anghenion pob disgybl

A5 Cryfhau rôl yr arweinwyr ar bob lefel a'r corff llywodraethol fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Dros gyfnod o amser, mae medrau llawer o ddisgyblion ar fynediad i'r ysgol yn isel. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd addas o'u man cychwyn. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau. Nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni'n ddigon uchel.

Mae medrau llafar Cymraeg llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, gall llawer sgwrsio'n frwdfrydig am eu gwaith gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol a phatrymau brawddegau yn gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn hyderus wrth drafod eu gwaith, gan fynegi eu syniadau'n glir a chyda chywirdeb. Mae medrau cyfathrebu Saesneg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu doniau darllen cynnar yn y Gymraeg yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen yn rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Maent yn trafod eu hoff gymeriadau yn addas. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ffoneg yn llwyddiannus wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir yn y Gymraeg, gyda dealltwriaeth sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a'r cymeriadau yn eu llyfrau cyfredol yn briodol. Mae llawer yn cywain gwybodaeth o wahanol destunau. Fodd bynnag, nid yw safonau darllen yn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 cystal.

Ar draws yr ysgol, mae cynnydd disgyblion mewn ysgrifennu yn amrywio gormod. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o wahanol ddibenion ysgrifennu. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n ddigon helaeth ar draws ystod o ffurfiau ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn dewis geiriau priodol ac yn cynnwys ffeithiau pwrpasol i gefnogi'r ysgrifennu, er enghraifft wrth greu adroddiadau syml mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac annibynnol ar draws yr ysgol. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn datblygu'n addas.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn addas mewn perthynas â'u gwaith ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae llawer yn datrys problemau mesur yn briodol wrth astudio'r corff. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o ffeithiau rhif ac yn defnyddio medrau mesur yn gywir. Er enghraifft, yn eu gwersi gwyddoniaeth, maent yn llunio tabl ar gyfer cyfradd curiad y galon yn fedrus. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon aml i resymu ac wrth gasglu, cofnodi a dadansoddi data. Mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn aml yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i gyflawni eu tasgau yn llwyddiannus.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n briodol i gyflwyno gwybodaeth a mewnfudo lluniau i'w gwaith. Maent yn defnyddio rhaglenni syml i gynhyrchu bas data. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn hyderus, gan olygu testun a mewnfudo lluniau. Mae llawer yn defnyddio'r we yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw medrau mwyafrif y disgyblion wedi'u datblygu'n llawn ar draws y cwricwlwm. Ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth effeithiol o sut i drin data neu greu taenlenni.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini. Maent yn gwybod am bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd i fyw'n iach. Mae aelodau'r pwyllgor iach ac eco yn hyrwyddo agweddau da tuag at yfed a bwyta'n iachus yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cynnal gweithgareddau corfforol amser egwyl ac yn annog disgyblion i gerdded milltir y dydd.

Mae ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi, gwasanaethau, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amseroedd hamdden, yn dda. Maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol. Mae bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac mae'r disgyblion hŷn yn gofalu am eraill yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae bron pob disgybl yn credu bod yr ysgol yn delio ag unrhyw achosion o fwlio yn dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau positif at eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn frwdfrydig ac yn aeddfed i ddisgwyliadau'r athrawon. Ym mhob gwers, maent yn cydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion mewn grwpiau a pharau ac yn dangos parch at farnau pobl eraill. Mae'r disgyblion hŷn yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ac maent yn chwarae eu rôl yn dda. Er enghraifft, maent yn helpu gofalu am drefn a diogelwch disgyblion wrth iddynt adael gwasanaethau ysgol ac wrth iddynt ddychwelyd i mewn i'r ysgol ar ôl amseroedd chwarae a chinio.

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd da sydd ganddynt i leisio eu barn ac i chwarae rhan yn eu cymuned, er enghraifft drwy gymryd rhan yng ngwasanaethau'r eglwys leol. Mae llawer o ddisgyblion yn rhannu eu syniadau ac yn cynnig awgrymiadau i wella agweddau o'r ysgol, er enghraifft mewn 'bocs barn' yn neuadd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn paratoi holiaduron effeithiol er mwyn casglu barn yr ysgol gyfan a llywio gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer y dyfodol. Mae'r cyngor ysgol ac eco yn weithgar yn trefnu ymweliad addysgol blynyddol ar gyfer yr ysgol gyfan. Mae'r gweithgareddau hyn oll yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygu medrau personol a chymdeithasol ddisgyblion ac yn sicrhau eu bod yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd a datblygiad yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae'r athrawon a'r staff ategol yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae'r gydberthynas sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion yn yr ysgol yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar iawn. Mae'r athrawon ar draws yr ysgol yn modelu'r iaith Gymraeg yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol yn briodol ac yn cyflwyno amcanion dysgu yn glir. Maent yn defnyddio cwestiynau penagored i wella dealltwriaeth disgyblion a'u helpu i ymhelaethu ar eu hatebion. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn ymrwymiad y disgyblion. Llwydda'r athrawon i greu awyrgylch briodol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn awyddus i ddysgu.

Lle nad yw'r addysgu cystal, mae'r cyflwyniadau'n rhy hir, cyflymder y gwersi yn araf ac nid yw'r gweithgareddau bob amser yn herio disgyblion yn ddigon llwyddiannus. Hefyd, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu medrau ysgrifennu a rhifedd llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae defnydd yr athrawon o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda. Maent yn cyflwyno nodau addysgol yn effeithiol i'r disgyblion ac yn gosod meini prawf pwrpasol iddynt. Mae'r athrawon yn cynnig adborth addas i'r disgyblion, gan nodi beth y maent wedi ei gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i'w sylwadau.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n briodol ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol gyfan wedi mynd i'r afael â sicrhau her bwrpasol i ymestyn y disgyblion, yn arbennig y disgyblion mwy galluog. Cyfoethogir y profiadau dysgu trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol a thrwy ymweliadau â lleoedd gwahanol, fel Pentre Bach.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol i'w chynlluniau. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn y broses o gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ymhellach.

Mae ymrwymiad yr ysgol i hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg a pharch at yr iaith yn dda. Enghraifft o hyn yw brwdfrydedd a mwynhad y disgyblion wrth ganu caneuon Cymraeg mewn gwasanaethau. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r elfen Gymreig ei hyrwyddo'n effeithiol. Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy gystadlu yn eisteddfod yr Urdd ac eisteddfodau lleol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft drwy ymweliadau â mannau diddorol fel canolfannau'r Urdd yn Llangrannog, Big Pit a'r Cynulliad. Gwna'r ysgol ddefnydd da o ymwelwyr, fel beirdd, artistiaid, milfeddygon a ffermwyr lleol i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae lefel uchel y gofal a'r cydweithio rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda at les y disgyblion. Mae'r staff yn cynnig cymorth a chefnogaeth gref i'r disgyblion. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â nhw.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am arferion bwyta ac yfed yn iach ac yn sicrhau cyfleoedd buddiol iddynt ymgymryd â sesiynau ymarfer corff mewn gwersi addysg gorfforol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau allgyrsiol er mwyn hybu ffitrwydd disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys y clwb chwaraeon milltir y dydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae'r ysgol yn hybu agweddau moesol yn llwyddiannus trwy ymweld ag eglwys a chapel y pentref ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i berfformio ynddynt yn rheolaidd, fel yng ngwasanaeth y cynhaeaf ac amser y Nadolig. Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol gyfoethog sy'n hyrwyddo agweddau fel cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd yn effeithiol. Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwerthoedd yn amlwg ym mywyd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio ystod o wybodaeth a chanlyniadau profion yn briodol i gynllunio a darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o'r data ar draws y meysydd dysgu a'r pynciau craidd.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd y mae staff yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol a phersonol disgyblion o oed cynnar. Mae staff ategol ac athrawon yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion. Mae'r ystod eang a chynhwysfawr o raglenni a strategaethau ymyrraeth yn galluogi disgyblion a grwpiau o ddisgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn rhai penodol a mesuradwy ac mae disgyblion a'r rhieni yn rhan bwysig o'r broses o lunio targedau. Mae'r ymyrraeth gynnar yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth angenrheidiol er mwyn iddynt lwyddo yn eu gwaith wrth iddynt deithio drwy'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn llwyddiannus. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau drwy weithgareddau cerdd, cystadlu mewn eisteddfodau a chyfrannu i weithdai celf. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymweld â chwmnïau theatr teithio.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Ers dychwelyd i'r ysgol, mae'r pennaeth wedi gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel am ddyfodol yr ysgol a dealltwriaeth gynyddol o'i chryfderau a meysydd i'w gwella. Mewn amser byr, mae hi wedi gwneud nifer o welliannau allweddol i'r ysgol ac wedi cyflwyno strategaethau addas i godi safonau, er enghraifft drwy gyflwyno gweithdrefnau penodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Er hynny, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith y gwelliannau ar safonau disgyblion.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a lles disgyblion. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r un weledigaeth. Maent yn dechrau ffocysu ar flaenoriaethau'n bwrpasol a chyfrannu at benderfyniadau strategol. Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau staff yn ddiweddar ac mae gan bawb gyfrifoldebau

priodol a swydd ddisgrifiadau clir. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac mae'r cyfarfodydd diweddar yn ffocysu'n drwyadl ar godi safonau a gwneud cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol systemau addas ar gyfer rheoli perfformiad athrawon, gydag amcanion sy'n cysylltu'n addas â meysydd datblygu'r ysgol. At ei gilydd, mae'r prosesau'n cael effaith briodol ar addysgu a dysgu, er enghraifft yn y dull cyson o ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi dechrau paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ac yn cynllunio a pharatoi'n bwrpasol i wireddu'r fframwaith cymhwysedd digidol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o berfformiad yr ysgol a gwyddant sut mae hyn yn cymharu ag ysgolion tebyg eraill. Mae'r llywodraethwyr wedi dechrau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hunanarfarnu, ond nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi cael digon o amser eto i ymsefydlu. Mae eu rôl wrth herio arweinyddiaeth yr ysgol yn gyfyngedig.

Mae'r pennaeth a'r athrawon wedi datblygu dealltwriaeth addas o'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Ar y cyfan, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol ac yn defnyddio amrywiaeth addas o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys craffu ar lyfrau disgyblion a deilliannau arsylwadau gwersi. Mae adroddiadau monitro diweddar y pennaeth gan amlaf yn ddadansoddol. Mae staff yn trafod canfyddiadau'r prosesau mewn cyfarfodydd staff ac mae hyn yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth y staff o safonau'r ysgol yn well. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i fesur effaith lawn y gweithdrefnau hyn ar safonau.

Yn gyffredinol, mae cyswllt addas rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a staff ategol. Er enghraifft, mae'r hyfforddiant a ddarparwyd i wella dulliau olrhain cynnydd disgyblion wedi arwain at ddefnydd effeithiol o'r strategaethau hyn yn y dosbarthiadau. Hefyd, mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i gydweithio'n bwrpasol ag ysgolion eraill yn y ffederasiwn anffurfiol i godi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Mae'r ysgol yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn fwriadus i wneud cynnydd mesuradwy yn erbyn targedau penodol a medrau cymdeithasol disgyblion penodol.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd priodol. Mae'r ystafelloedd yn darparu amgylchedd dysgu sydd yn ddeniadol. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd agored ar gyfer dysgu a chwarae. Caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n dda

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2018